# PANEL YR AELODAU O RAN APELIADAU CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL.

Dydd Mawrth, 26 Medi 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd H.A.L. Evans (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
G. Davies, P. Hughes-Griffiths and K. Lloyd

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
S. Davies, Rheolwr Gwasanaethau Moderneiddio
A. Evans, Rheolwr Gweithrediadau - Cludiant Teithwyr
K. Morris, Cyfreithiwr Cynorthwyol
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Committee Room 2, 3 Spilman Street, Carmarthen - 2.40  - 3.00 pm**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

| Enw | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| S. Davies – Rheolwr Gwasanaethau Moderneiddio | 4 – Ystyried apêl gan yr ymgeisydd C.J.C. yn erbyn y penderfyniad gan swyddogion i beidio â darparu cludiant am ddim i'r ysgol | Yn adnabod yr ymgeisydd |
| S. Davies – Rheolwr Gwasanaethau Moderneiddio | 5 – Ystyried apêl gan yr ymgeiswyr L.T.H. a J.T.H. yn erbyn y penderfyniad gan swyddogion i beidio â darparu cludiant am ddim i'r ysgol | Yn adnabod yr ymgeiswyr |

## 3. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 4. YSTYRIED APÊL GAN YR YMGEISYDD C.J.C. YN ERBYN Y PENDERFYNIAD GAN SWYDDOGION I BEIDIO Â DARPARU CLUDIANT AM DDIM I'R YSGOL

(NODER: Roedd Mr S. Davies, a oedd wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, wedi aros yn y cyfarfod i ateb unrhyw gwestiynau ynghylch yr ysgol, ond ni chymerodd ran yn y drafodaeth na'r penderfyniad ynghylch yr apêl.)

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol.

Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth bersonol oedd yn ymwneud â'r ymgeisydd. Er y byddai datgelu'r wybodaeth yn ategu tryloywder ac atebolrwydd o ran y broses o wneud penderfyniad, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, am fod angen sicrhau na fyddai modd adnabod yr ymgeisydd a'i deulu/a'i theulu.

Croesawodd y Cadeirydd swyddogion o wasanaethau'r Gyfraith, yr Amgylchedd ac Addysg a Gwasanaethau Plant i'r cyfarfod.

Bu'r Panel yn ystyried sylwadau ysgrifenedig yr apelydd mewn perthynas â phenderfyniad Panel Adolygu Cam 1 i wrthod darparu cludiant am ddim i C.J.C i ysgol ddynodedig agosaf yr Awdurdod Addysg Lleol a oedd o fewn y pellter cerdded statudol, ac nad oedd felly'n cydymffurfio â'r meini prawf ym mholisi'r Cyngor ar gyfer rhoi cymorth.

Ystyriodd y Panel sylwadau'r swyddogion adrannol, ynghyd ag amgylchiadau unigol yr achos. Hefyd gofynnodd y Panel am eglurhad ynghylch elfennau o Bolisi'r Awdurdod ynghylch Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, y ddarpariaeth cludiant cyhoeddus oedd ar gael o gartref C.J.C. i'r ysgol ddynodedig ynghyd ag asesiad o'r llwybr cerdded i'r ysgol yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru.

**PENDERFYNWYD gwrthod yr apêl, yn unol â Pholisi'r Awdurdod ynghylch Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, ar y sail bod cyfeiriad cartref C.J.C. o fewn pellter cerdded statudol i ysgol ddynodedig yr Awdurdod Addysg Lleol a bod y llwybr cerdded hwnnw wedi'i asesu, yn unol â meini prawf Llywodraeth Cymru, ac y bernid bod modd ei ddefnyddio.**

## 5. YSTYRIED APÊL GAN YR YMGEISYDD L.T.H. & J.T.H YN ERBYN Y PENDERFYNIAD GAN SWYDDOGION I BEIDIO Â DARPARU CLUDIANT AM DDIM I'R YSGOL

(NODER: Roedd Mr S. Davies, a oedd wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach, wedi aros yn y cyfarfod i ateb unrhyw gwestiynau ynghylch yr ysgol, ond ni chymerodd ran yn y drafodaeth na'r penderfyniad ynghylch yr apêl.)

Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol.

Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth bersonol oedd yn ymwneud â'r ymgeisydd. Er y byddai datgelu'r wybodaeth yn ategu tryloywder ac atebolrwydd o

ran y broses o wneud penderfyniad, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, am fod angen sicrhau na fyddai modd adnabod yr ymgeisydd a'i deulu/a'i theulu.

Croesawodd y Cadeirydd swyddogion o wasanaethau'r Gyfraith, yr Amgylchedd ac Addysg a Gwasanaethau Plant i'r cyfarfod.

Bu'r Panel yn ystyried sylwadau ysgrifenedig yr apelydd mewn perthynas â phenderfyniad Panel Adolygu Cam 1 i wrthod darparu cludiant am ddim i L.T.H. a J.T.H i ysgol ddynodedig agosaf yr Awdurdod Addysg Lleol a oedd o fewn y pellter cerdded statudol, ac nad oedd felly'n cydymffurfio â'r meini prawf ym mholisi'r Cyngor ar gyfer rhoi cymorth.

Ystyriodd y Panel sylwadau'r swyddogion adrannol, ynghyd ag amgylchiadau unigol yr achos. Hefyd gofynnodd y Panel am eglurhad ynghylch elfennau o Bolisi'r Awdurdod ynghylch Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, y ddarpariaeth cludiant cyhoeddus oedd ar gael o gartref yr apelyddion i'r ysgol ddynodedig ynghyd ag asesiad o'r llwybr cerdded i'r ysgol yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru.

**PENDERFYNWYD gwrthod yr apêl, yn unol â Pholisi'r Awdurdod ynghylch Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, ar y sail bod cyfeiriad cartref L.T.H. a J.T.H. o fewn pellter cerdded statudol i ysgol ddynodedig yr Awdurdod Addysg Lleol a bod y llwybr cerdded hwnnw wedi'i asesu, yn unol â meini prawf Llywodraeth Cymru, ac y bernid bod modd ei ddefnyddio.**

| | |
|---|---|
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |